PWYLLGOR CYMRU Y GWASANAETH CYFREITHIOL CYMUNEDOL (CLS)

Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2007
yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd .

Presennol: Tom Jones, Comisiynydd Cymru, LSC (Cadeirydd)
Nick Chibnall, Gwasanaeth Llys ei Mawrhydi
Paul Davies, Cyfarwyddwr Cymru, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Rhian Davies, Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
Rhys Evans, Cyngor Defnyddwyr Cymru
Dafydd Ifans, CAFCASS Cymru
Paul Newell, Pennaeth Polisi Sifil, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Dr Caroline Turner, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Siân West, NOMS
Tiana Williams, Datblygydd Polisi Cymru, LSC

Ynghyd â: Elaine Bennion, LSC, Cofnodion
Earl Smith, NOMS

Ymddiheuriadau: Naomi Alleyne, CLILC
Maria Battle, Comisiynydd Plant Cymru
Graham Benfield, CGGC
Crispin Passmore, Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Nich Pearson, Cyngor Defnyddwyr Cymru
Pascoe Pleasance, Canolfan Ymchwil Gwasanaethau Cyfreithiol

1.	**Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Chroeso** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd ymddiheuriadau ar ran yr uchod. Gofynnwyd i Dr Caroline Turner os oedd unrhyw ddiweddariadau gan y Cynulliad Cenedlaethol yn dilyn penodi Andrew Davies AC yn Weinidog newydd Cyfiawnder Cymdeithasol a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus. Dywedodd nad oedd unrhyw ddiweddariadau sylweddol ar hyn o bryd ond bod y gweinidog newydd yn barod i gwrdd gyda'r Cadeirydd.	
2.	**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2007** Cadarnhawyd y cofnodion gyda newid i eiriad pwynt 6.4, gyda 'streiciau' yn cael ei newid yn 'gweithredu diwydiannol'. Cafwyd trafodaeth os bydd y cofnodion ar gael i'w gweld ar wefan yr LSC a phenderfynwyd, yn amodol ar gytundeb aelodau absennol, y dylai crynodeb fod ar gael i'w gylchredeg i aelodau ar gyfer eu sylwadau ynghyd â'r cofnodion llawn. **Gweithredu – aelodau absennol i anfon eu sylwadau at y Cadeirydd.**	

3.	**Materion yn codi** Nodwyd fod Guy Tompkins wedi cytuno anfon cynrychiolydd o'r Grŵp Tribiwnlysoedd i fynychu cyfarfodydd o fis Medi. 4.6 Nodwyd y caiff CGGC bellach eu cynrychioli ar y Pwyllgor, a fydd yn helpu gydag ymgyfraniad cleientiaid ac er bod Graham Benfield wedi cyflwyno ei ymddiheuriadau ar gyfer cyfarfod heddiw, bydd yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.	
4.	**Cylch Gorchwyl** Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw sylwadau am y drafft gylch gorchwyl gan aelodau cyn y cyfarfod. Trafodwyd y cynnwys a phenderfynwyd na ddylai'r rhestr aelodau ffurfio rhan o'r ddogfen, gan fod angen iddi fod yn hyblyg fel y dynodir aelodau newydd. Dylai amseriad cyfarfodydd hefyd fod yn hyblyg a dylai fod yn isafswm o 4 gwaith y flwyddyn yn hytrach nag uchafswm o 4 gwaith y flwyddyn. Mae hyn er mwyn ei gwneud yn bosibl galw cyfarfodydd ychwanegol megis cyfarfod gyda gweinidogion. Cytunwyd y byddid yn adolygu'r cylch gorchwyl yn flynyddol. Cytunodd y Cadeirydd lofnodi'r cylch gorchwyl unwaith y cynhwyswyd y gwelliannau.	**TJ**
5	**Rhaglen Waith** Trafodwyd y rhaglen waith a nodwyd y medrai aelodau awgrymu eitemau ar gyfer eu cynnwys. Nodwyd hefyd y bwriedir paratoi adroddiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ac i gynnal cynhadledd CLS y flwyddyn nesaf ac y cynhwysir y rhain yn y rhaglen. Tanlinellwyd pwysigrwydd y gwahaniaeth rhwng y CLS a'r LSC a dylai fod yn glir fod y Pwyllgor yn ymwneud â gwasanaethau cyngor cyfreithiol yn gyffredinol ac nid dim ond am faterion cymorth cyfreithiol. Awgrymwyd y dylai aelodau feddwl am feysydd o'u gwaith a fyddai o ddiddordeb cyffredinol i'r Pwyllgor ac ystyried os medrent roi cyflwyniad mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn annog gweithio cydlynol ac yn galluogi cronni adnoddau ar gyfer ymchwil ac ati a mewnbynnu i ymgynghoriadau gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru.	**Pawb**
6	**Dangosyddion Perfformiad Allweddol** Dosbarthwyd tablau data gan yr LSC ar wariant Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru ac achosion caeedig Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS Direct), a ysgogodd drafodaeth ar yr wybodaeth rheoli y byddai'r Pwyllgor yn	

	hoffi edrych arni. Gofynnwyd pam fod cynnydd sylweddol yn nifer y galwadau am ddyled a wnaed i CLS Direct a nodwyd mai un posibilrwydd oedd ymgyrch dyled a lansiwyd gan yr LSC ar 1 Tachwedd 2006 er na chadarnhawyd mai dyna'r rheswm. Penderfynwyd y byddai adroddiad eithriad yn esbonio'r uchafbwyntiau a'r isafbwyntiau yn y data wedi bod yn ddefnyddiol wrth ochr y tablau data. Cytunwyd fod angen gwybodaeth fanylach ar gyngor ffôn a bydd hyn ar gael i'w drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol. **Cam Gweithredu – cynnwys eitem mewn cyfarfod yn y dyfodol.** Mae CLS Direct yn gweithio'n agos gyda Cyswllt Defnyddwyr a gofynnwyd i aelodau pa wybodaeth rheolaeth y medrai eu sefydliadau ei rhoi. Penderfynwyd y byddai gorosod data pob aelod i gael darlun fwy yn ddarn defnyddiol o waith. Cytunwyd y byddai'r Cyngor Defnyddwyr yn rhoi ystadegau ar Cyswllt Defnyddwyr yn y cyfarfod nesaf. Cafwyd trafodaeth ar yr angen i edrych ar ddata daearyddol a chytunwyd y bydd y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf yn edrych ar y data ar wariant cyfredol o gymharu â gwariant hanesyddol a hefyd yn edrych sut mae cleientiaid yn cyrchu gwasanaethau. Cydnabuwyd yr angen am drafodaeth ar fapio a chytunwyd cael hyn yn y cyfarfod nesaf. **Cam Gweithredu – cynnal trafodaeth ar fapio yn y cyfarfod nesaf.** **Cam Gweithredu – e-bostio data Mawrth ar gyfer CLS Direct at aelodau.** Trafodwyd y gofyniad i gael data yn cymharu gyda Lloegr gan yr awgrymwyd nad yw pobl yng Nghymru yn cyrchu cyngor ffôn. Mae NOMS yn cymharu ystadegau gyda Gogledd Ddwyrain Lloegr oherwydd y credir ei fod o faint a chyfansoddiad tebyg i Gymru. Cytunwyd y gwahoddid rhywun o CLS Direct i siarad yn y cyfarfod nesaf i gael gwybodaeth am sut y cesglir data, gan na ymddengys fod patrymau amlwg yng Nghymru. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiddordeb yn pam nad yw pobl ifanc yn cyrchu gwasanaethau cyngor ffôn fel yr awgryma'r ymchwil.	**NP** **PD** **PD** **TW**
7	**"Gwneud Hawliau Cyfreithiol yn Realaeth yng Nghymru" – Diweddariad** Ffocws allweddol yr ymgynghoriad oedd lle dylai'r ardaloedd caffael mwyaf priodol yng Nghymru fod a threfn lywodraethu'r CLS yng Nghymru. Nodwyd y derbyniwyd 32 ymateb cynrychioladol ac y paratowyd crynodeb ohonynt. Mae'r LSC a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awr yn cynnal trafodaethau am gynhyrchu ymateb ar y cyd yn yr haf. Dywedodd y Cadeirydd y cyhoeddwyd yr ymgynghoriad hwn beth amser ar ôl yr ymgynghoriad tebyg yn Lloegr a gobeithir y caiff ymgynghoriadau ar wahân ar gyfer Lloegr a Chymru eu cyhoeddi ar yr un pryd yn y dyfodol.	

	Heb fod wedi'i gynnwys yn yr eitem hon - Trafodwyd cais gan Fforwm CLS i gael cynrychiolydd ar y Pwyllgor a chytunwyd, yn amodol ar gytundeb yr aelodau absennol, i wahodd cadeirydd y Fforwm CLS yn ffurfiol i'r Pwyllgor ond na fedrai gymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth am gomisiynu a fedrai arwain at wrthdaro diddordeb. **Cam Gweithredu – Cysylltu ag aelodau absennol i weld os oes ganddynt unrhyw wrthwynebiadau.** **Cam Gweithredu – Cadeirydd i ysgrifennu'n ffurfiol at Gadeirydd y Fforwm CLS.**	**PN**
8	**Diweddariad ar waith yr LSC yng Nghymru** 8.1 Derbyniwyd y ffigurau diwedd y flwyddyn a nodwyd y cafodd 51,000 o bobl yng Nghymru eu helpu heb orwario ar unrhyw ran o'r gyllideb. Cyflawnwyd hyn drwy symud arian o ardaloedd oedd yn tanwario i sicrhau fod cleientiaid yn cael eu helpu yn yr ardaloedd cywir. Nodwyd hefyd y bu cynnydd o 25% ym mherfformiad cyrff Nid er Elw. 8.2 Nodwyd y bu llawer o ansicrwydd yn y sylfaen cyflenwyr ac y cynhaliwyd gweithredu diwydiannol mewn rhai ardaloedd, fodd bynnag serch hynny ni effeithiwyd ar waith cyfreithwyr ar ddyletswydd. 8.3 Mae cyflenwyr sy'n gwneud gwaith sifil ar hyn o bryd yn anfon eu ffurflenni adroddiadau misol am waith a gwblhawyd ar ffurf papur i'r LSC. Erbyn 1 Hydref 2007 mae telerau eu contract newydd yn golygu fod yn rhaid iddynt yn awr gyflwyno'r adroddiadau hyn ar-lein i'r LSC. Mae 50% o gyflenwyr yn awr yn cyflenwi eu hadroddiadau ar-lein a bydd y 50% nesaf yn cyflwyno erbyn dyddiad cau mis Hydref. Mae cyflenwyr sy'n gwneud gwaith troseddol yn unig ar darged i fod yn cyflwyno erbyn y flwyddyn nesaf gan fod telerau eu contract newydd yn dweud y dylent fod yn gwneud hyn erbyn 1 Ebrill 2008. 8.4 Nodwyd fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi llofnodi'r cynllun iaith Gymraeg. 8.5 Cynhaliwyd digwyddiad yn San Steffan gydag Aelodau Seneddol Cymru i'w diweddaru ar y datblygiadau diweddaraf a rhaglen ad-drefnu Ffordd Ymlaen. Cafodd y digwyddiad dderbyniad da a bwriedir cynnal digwyddiad tebyg eto'r flwyddyn nesaf a chynnal un tebyg ar gyfer Aelodau Cynulliad. Gofynnwyd i aelodau i'r Cadeirydd roi sylwadau ar gyfer digwyddiad y flwyddyn nesaf a gynhelir gan y Pwyllgor. 8.6 Cyflwynwyd rhaglen o ymweliadau cyflenwyr gyda'r bwriad o'u hysbysu am y datblygiadau diweddaraf. 8.7 Nodwyd y cyflawnwyd yr holl dargedau ar gyfer 2006/2007. • Cytunwyd gyda Llywodraeth y Cynulliad i gydweithio i sicrhau fod Aelodau Cynulliad yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ac a fydd gobeithio'n	**Pawb**

	gostwng y gwaith achos y bydd yn rhaid iddynt ei wneud.	
9	**Unrhyw Fater Arall** Nodwyd mai hwn fyddai cyfarfod olaf Siân West ac y bydd Yvonne Thomas yn mynychu yn y dyfodol.	
10	**Diwedd y cyfarfod cyntaf – gyda chyfarfod gyda darparwyr cyngor cyfreithiol yn dilyn** Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Gwener 14 Medi 2007, lleoliad i gael ei gadarnhau.	